TAR Y Brifysgol Agored - Cwestiynau Cyffredin

1. **Ymholiad Cyffredinol - am ragor o wybodaeth**

2. **Sut i wneud cais**
    - Beth yw'r broses gwneud cais?
    - Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau?
    - Rwy'n newidiwr gyrfa heb ysgol ardystio, sut mae gwneud cais am y llwybr cyflogedig?
3. **Cymwysterau TGAU**
    - Pa raddau TGAU sydd eu hangen arnaf?
    - Sut ydw i'n sefyll arholiadau cyfwerthedd?
    - Nid wyf wedi cwblhau fy addysg yn y DU yn llawn/yn rhannol, sut mae fy nghymwysterau yn cymharu?
4. **Graddau Israddedig**
    - A oes angen imi fod â gradd anrhydedd lawn?
    - Beth yw'r gofynion mynediad lleiaf ar gyfery rhaglen  Cynradd Rhan-amser?
    - Rwyf eisiau dysgu yn yr Uwchradd, a yw fy ngradd yn berthnasol?
    - A oes angen imi fod â gradd yn y Gymraeg i ddysgu Cymraeg ar lefel Uwchradd?
5. **Ffioedd a chyllid**
    - Faint mae'r cwrs yn ei gostio?
    - Faint fyddaf yn cael fy nhalu ar y llwybr Cyflogedig?
    - A oes cyllid ar gael ar gyfer y llwybr Rhan Amser?
    - A oes cyllid ar gael ar gyfer y llwybr Cyflogedig?
    - Pa fentrau hyfforddi athrawon sydd ar gael?
6. **Amlinelliad o'r Cwrs**
    - Sut yr addysgir y TAR?
    - Beth yw'r llwybr Rhan Amser?
    - Beth yw'r llwybr Cyflogedig?
7. **Ymrwymiad i'r Cwrs**
    - Faint o amser fydd angen i mi dreulio yn astudio?
    - Faint o amser fydd angen i mi dreulio yn addysgu?
    - Faint o amser fydd gen i ar gyfer fy swydd arferol?
8. **Lleoliadau Ysgol**
    - Sut mae lleoliadau ysgol yn gweithio?
    - Pryd mae'r lleoliadau ysgol yn cael eu cynnal?
    - A allaf wneud fy lleoliadau yn fy ysgol bresennol?
    - Beth yw Ysgol Bartner?
9. **Ydych chi eisoes yn gweithio mewn ysgol?**
    - Mae fy ysgol bresennol wedi cytuno i fy noddi, sut mae hynny'n gweithio?
    - Nid yw fy ysgol bresennol yn gallu fy noddi, a allwch chi fy helpu i ddod o hyd i ysgol arall i fy noddi?
    - Nid yw fy ysgol bresennol yn gallu fy noddi, a oes modd imi ddilyn y llwybr rhan amser?
    - Sut mae fy ysgol yn gwneud cais i ddod yn ysgol Bartner?

## 1. Ymholiad Cyffredinol - am ragor o wybodaeth

Mae trosolwg o'r rhaglen TAR 2 flynedd i'w gweld yn y Prosbectws. I wneud cais am gopi, cliciwch yma

Gellir canfod rhagor o wybodaeth am y Rhaglen TAR ar ein gwefan
Gallwch ddod o hyd i'r Ffurflen Gais a Nodiadau Canllaw ar ein gwefan

## 2. Sut i wneud cais

### *Beth yw'r broses gwneud cais?*

Gellir dod o hyd i gyfarwyddyd manwl ar sut i wneud cais ar ein gwefan.

### *Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau?*

Cyhoeddir y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau bob blwyddyn ar wefan y Rhaglen TAR

### *Rwy'n newidiwr gyrfa heb ysgol ardystio, sut mae gwneud cais am y llwybr cyflogedig?*

Os nad ydych chi'n gweithio mewn ysgol wladol neu eisiau newid gyrfa, gallwch wneud cais ar gyfer y llwybr cyflogedig ar gyfer **pynciau prinder Uwchradd yn unig**. Bydd angen ysgol uwchradd yn barod i'ch ardystio, a gallwn eich helpu i ddod o hyd iddo.

Nid ydym yn argymell bod myfyrwyr yn cysylltu ag ysgolion yn uniongyrchol i geisio dod o hyd i ysgol ardystio. Dim ond mewn sefyllfaoedd lle mae perthnasoedd proffesiynol agos (er enghraifft, cyn-gyflogwr).

## 3. Cymwysterau TGAU

### *Pa raddau TGAU sydd eu hangen arnaf?*

- TGAU Gradd B mewn Gymraeg Iaith Cyntaf neu Saesneg Iaith
- TGAU Gradd B mewn Mathemateg.
- TGAU Gradd C mewn pwnc Gwyddoniaeth ar gyfer dysgu yn y Cynradd

Os oes gennych radd B neu gyfwerth (TGAU neu gyfwerth) mewn unai Llenyddiaeth Saesnegneu Lenyddiaeth Gymraeg, mae'n rhaid ichi hefyd fod â gradd C neu uwch (TGAU neu gyfwerth) yn y TGAU Saesneg Iaith neu Gymraeg Iaith Cyntaf cyfatebol.

Efallai eich bod eisoes yn meddu ar gymhwyster sy'n gyfwerth â chymwysterau TGAU. Cysylltwch â TAR-Cymru@open.ac.uk i gael cyngor ar y cymwysterau cyfwerth y gallwn eu derbyn.

Yn ôl i'r dewislen

Os nad ydych yn cwrdd â'r gofynion TGAU (neu gyfwerth) ar hyn o bryd, gallwch naill ai ail-eistedd eich TGAU i gael y radd ofynnol neu os oes gennych radd C mewn Saesneg a / neu Fathemateg neu radd D mewn Gwyddoniaeth, efallai gallwch chi sefyll prawf cywerthedd* trwy gwmni profi neu Brifysgol gymeradwy arall. Nid ydym yn gallu derbyn profion cywerthedd i uwchraddio o radd D neu'n is mewn Saesneg neu Fathemateg neu radd E mewn Gwyddoniaeth, bydd angen i chi ail-eistedd TGAU llawn. Os ydych chi'n ail-eistedd eich TGAU, nodwch hyn ar y ffurflen gais.

***Ar gyfer Ymgeiswyr Cynradd Rhan-amser: Oherwydd y galw mawr am lefydd cynradd, mae mynediad i'n rhaglen ran-amser wedi'i gyfyngu i ymgeiswyr sydd â gradd lefel 2:2 neu'n uwch, ac sydd ond angen pasio 1 prawf cywerthedd TGAU wrth wneud cais.***

Bydd gofyn i fyfyrwyr sydd angen eistedd prawf cywerthedd TGAU, gyflawni'r radd angenrheidiol cyn neu yn ystod y rhaglen TAR neu bydd yn rhaid iddynt dynnu'n ôl o'r cwrs.

Dylid nodi o hyd bod y broses ymgeisio yn gystadleuol, a bod graddau TGAU yn un elfen o sutyr ydym yn ystyried eich cais

## *Sut ydw i'n sefyll arholiadau cyfwerthedd?*

Gallwch wneud y profion cyfwerthedd drwy gwmni profi fel www.equivalencytesting.com. Sicrhewch eich bod yn dewis Mathemateg a Saesneg Uwch (nid Sylfaen) i gael y radd B gyfwerth. Rydym yn derbyn Gwyddoniaeth Gyfun a Bioleg yn cyfateb i Wyddoniaeth TGAU.

Byddwn hefyd yn derbyn profion cyfwerthedd a reolir drwy sefydliadau addysg uwch eraill. Fodd bynnag, bydd angen i chi ofyn i'r Sefydliad Addysg Uwch e-bostio canlyniadau'r profion cyfwerthedd atom yn uniongyrchol i: TAR-Cymru@open.ac.uk

## *Nid wyf wedi cwblhau fy addysg yn y DU yn llawn/yn rhannol, sut mae fy nghymwysterau yn cymharu?*

Mae'r Ganolfan Gwybodaeth Genedlaethol ar gyfer cydnabod cymwysterau academaidd a sgiliau (UK ENIC – a elwir gynt yn NARIC) yn darparu canllawiau a yw cymhwyster tramor yn debyg o ran safon i gymhwyster penodol yn y DU. Gallant ddarparu Datganiad o Gymharedd i ddangos os bydd eich cymwysterau yn bodloni'r gofynion ar gyfer cael eich derbyn. Dylech gael tystysgrif ENIC i sicrhau eich bod yn bodloni'r gofynion cyn gwneud cais. Gweler y ddolen ar gyfer ENIC yma: https://www.enic.org.uk/

Os nad yw Saesneg yn un o'ch ieithoedd brodorol a'ch bod am astudio TAR yn y DU, rhaid i chi allu dangos lefel uchel o allu iaith Saesneg. Bydd angen i chi gyflawni sgôr Systemau Profi Iaith Saesneg Rhyngwladol (IELTS) o 7+ ym mhob rhan o'r prawf.

Yn ôl i'r dewislen

## 4. Graddau Israddedig

### *A oes angen imi fod â gradd anrhydedd lawn?*

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd sydd am ddilyn cwrs TAR fod â Gradd Anrhydedd Lawn e.e. BA(Anrh) neu BSc (Anrh) neu gyfwerth â dosbarthiad e.e. Dosbarth 1, 2:1, 2:2, 3.

Gallwn ystyried rhai cywerthedd i raddau - e.e. cymhwyster Meistr neu ACCA (rhaid i'r rhain fod yn gyfwerth â chymhwyster lefel 6 ac wedi'u cydnabod). Rydym yn trin y rhain fesul achos.

### *Beth yw'r gofynion mynediad lleiaf ar gyfery rhaglen Cynradd Rhan-amser?*

Ar gyfer Ymgeiswyr Cynradd Rhan-amser: Oherwydd y galw mawr am lefydd cynradd, mae mynediad i'n rhaglen ran-amser wedi'i gyfyngu i ymgeiswyr sydd â gradd lefel 2:2 neu'n uwch, ac sydd ond angen pasio 1 prawf cywerthedd TGAU wrth wneud cais.

### *Rwyf eisiau dysgu yn yr Uwchradd, a yw fy ngradd yn berthnasol?*

Ar gyfer ymgeiswyr Uwchradd, disgwylir y bydd eich gradd yn cynnwys cyfran sylweddol o'rpwnc yr ydych yn dymuno hyfforddi i'w addysgu neu'n perthyn yn agos i'r pwnc. Mae hyblygrwydd mewn rhai pynciau, tra bod graddau eraill efallai'n gofyn am wybodaeth berthnasol iawn am bynciau. Os NAD yw teitl eich gradd yn cyd-fynd yn uniongyrchol â phwnc y cwricwlwm yr ydych am ei addysgu, anfonwch drawsgrifiad o'ch gradd atom gyda'ch dogfennaeth. Gellir dod o hyd i'r nodiadau canllaw ar ein gwefan.

### *A oes angen imi fod â gradd yn y Gymraeg i ddysgu Cymraeg ar lefel Uwchradd?*

Na, gallwch fod ag unrhyw radd, ond rhaid i chi fod yn siaradwr Cymraeg rhugl i ddysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg. I ddysgu Cymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, mae gradd yn y Gymraeg yn ddymunol, ondgellir ystyried gradd gysylltiedig.

**Os ydych yn dymuno cwblhau unrhyw agwedd o'ch cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, rhaid ichi o leiaf gwblhau eich datganiad ategol yn Gymraeg, neu, yn ddelfrydol, defnyddio'r ffurflen gais Gymraeg i gwblhau'r cais cyfan yn Gymraeg. Rhaid i bob ymgeisydd ar gyfer y cwrs TAR Uwchradd Cymraeg gwblhau ei gais yn Gymraeg a chael ei ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.**

## 5. Ffioedd a chyllid

### *Faint mae'r cwrs yn ei gostio?*

Ffi'r cwrs yw £2,625 y flwyddyn, a fydd yn cael ei dalu'n flynyddol. £5,250 fydd cyfanswm costy TAR*. Os ydych ar y Llwybr rhan Amser, byddwch yn talu'r ffioedd eich hun yn uniongyrcholi'r Brifysgol Agored. Os ydych ar y Llwybr cyflogedig, mae eich ffioedd yn cael eu talu gan grant hyfforddiant gan Lywodraeth Cymru.

* prisiau 2022/23; mae ffioedd fel rheol yn cynyddu'n flynyddol yn unol â chwyddiant acmagwedd strategol y Brifysgol at ffioedd.

Yn ôl i'r dewislen

### *Faint fyddaf yn cael fy nhalu ar y llwybr Cyflogedig?*

Bydd y cyflog a enillir gan fyfyrwyr yn cael ei osod yn gyffredinol ar lefel isaf graddfa gyflog athrawon heb gymhwyso (£18,487 ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/2022). Mae hwn yngyflog llawn amser (nid yn ystod y tymor) a delir i chi gan eich Ysgol Gyflogwr.

### *A oes cyllid ar gael ar gyfer y llwybr Rhan Amser?*

Gweler ein gwefan Ffioedd a Chyllid ar gyfer rhagor o wybodaeth ynghylch y cyllid sydd ar gael ar y Llwybr rhan amser: http://www.open.ac.uk/courses/fees-and-funding

Gallwch wneud cais am fenthyciad myfyriwr os ydych ar y llwybr TAR rhan amser. Ewch i wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru i weld rhagor o wybodaeth https://www.studentfinancewales.co.uk/postgraduate-students/postgraduate-initial-teacher- education.aspx

Gallwch hefyd wneud cais am hyd at £3,000 o gyllid i helpu gyda chostau byw wrth i chiastudio.
https://www.studentfinancewales.co.uk/undergraduate-students/new-students/what-financial- support-is-available/help-with-living-costs.aspx

Yn ogystal, gallech fod yn gymwys am fwrsariaethau gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yndibynnu ar ddosbarth eich gradd, y lefel TAR a'r pwnc yr ydych yn ei ddewis (ar gyfer myfyrwyr uwchradd).

https://llyw.cymru/addysg-gychwynnol-athrawon-cynllun-cymhelliant-pynciau-blaenoriaeth-canllawiau-i-fyfyrwyr-html

Mae cyllid ychwanegol ar gael - gweler y prosbectws am ragor o wybodaeth.

### *A oes cyllid ar gael ar gyfer y Llwybr Cyflogedig?*

Ar y Llwybr Cyflogedig, byddwch yn cael eich cyflogi gan eich ysgol ac yn cael y swm cyflog lleiafswm ar y raddfa athro heb gymhwyso (£18,487 ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/2021). Ni fydd modd i chi gael benthyciad myfyriwr gan fod Llywodraeth Cymru eisoes yn talu am y ffioedd. Nid yw'r grant cynhaliaeth na'r bwrsariaethau gan Lywodraeth Cymru ar gael i fyfyrwyr ar y llwybr cyflogedig.

Ar gyfer rhagor o gyllid, ewch i http://www.open.ac.uk/courses/fees-and-funding

### *Pa fentrau hyfforddi athrawon sydd ar gael?*

Gall graddedigion sydd â graddau penodol fod yn gymwys i gael cymelliadau o hyd at £20,000, os ydynt yn dymuno hyfforddi i fod yn athrawon yng Nghymru. Mae'r rhain ar gaelar y llwybr rhan amser yn unig.

Dysgwch fwy am gymhellion hyfforddi athrawon yng Nghymru. https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-06/cymhellion-hyfforddi-athrawon-blwyddyn-academaidd-2020-i-2021.pdf

## 6. Amlinelliad o'r Cwrs

### *Sut yr addysgir y TAR?*

Gallwch ddilyn un o ddau lwybr: y llwybr cyflogedig neu'r llwybr rhan-amser. Mae'r ddau yn cynnwys cymysgedd o sesiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb gyda mentoriaid a thiwtoriaid ymarfer. Byddwch hefyd yn cael profiad ymarferol mewn dwy ysgol.

Dros y ddwy flynedd o astudio, bydd gennych 120 diwrnod o leoliadau dysgu; 60 diwrnod y flwyddyn. Yn y flwyddyn gyntaf, bydd disgwyl ichi dreulio tua 50% o'ch amser mewn rôl cymorth a 50% o'ch amser yn astudio neu'n ymgymryd â gweithgareddau ymarferol fel cynllunio a chyflwyno gwersi. Byddwch yn symud o gynnig cymorth yn y dosbarth, a chynllunio ac addysgu gwersi unigol yn TAR 1; i gynllunio ac addysgu cyfres o wersi yn TAR 2; i gymryd cyfrifoldeb am gynllunio, darparu adnoddau ac addysgu ar eich pen eich hun cyfres o wersi yn TAR 3.

Ar gyfer eich astudiaeth academaidd, byddwch yn defnyddio ein rhith-amgylchedd dysgu i gael mynediad at diwtorialau byw, cynnwys modiwlau fel gwerslyfrau, fideos a sain, a gweithgareddau ymarfer dysgu. Yma hefyd, y byddwch yn rhyngweithio â thiwtoriaid a myfyrwyr eraill mewn fforymau ar-lein.

### *Beth yw'r llwybr Rhan Amser?*

Mae’r llwybr rhan amser yn cynnig y cyfle i chi gael y cymwysterau sydd eu hangen arnoch wrth gydbwyso eich cyfrifoldebau eraill. Gallwch wneud cais am fenthyciad myfyriwr a grantiau cynhaliaeth rhan-amser i helpu gyda chostau'r llwybr hunan-ariannu hwn.

Mae'r llwybr hwn yn cynnig peth hyblygrwydd gan y gallwch ennill profiad addysgu ymarferolrhan-amser mewn ysgol law yn llaw â'ch ymrwymiadau. Dros y ddwy flynedd, bydd gennych 120 diwrnod o leoliadau dysgu; 60 diwrnod y flwyddyn. Yn yr ail flwyddyn, rhaid cwblhau 30 diwrnod o'ch lleoliadau ysgol mewn bloc parhaus.

### *Beth yw'r llwybr Cyflogedig?*

Os ydych eisoes yn gweithio mewn ysgol wladol, fel cymhorthydd addysgu neu mewn swyddnad yw'n ymwneud ag addysgu, gallwch wneud cais i'ch ysgol eich noddi. Byddwch yn gweithio yn yr ysgol yn llawn amser ac yn astudio o amgylch eich dyletswyddau presennol. Rhaid i'ch cais gael ei gefnogi gan eich ysgol gan y byddant yn talu eich cyflog. Bydd eichffioedd cwrs yn cael eu hariannu'n llawn gan grant hyfforddi gan Lywodraeth Cymru.

Os nad ydych chi'n gweithio mewn ysgol wladol neu eisiau newid gyrfa, gallwch wneud cais ar gyfer y llwybr cyflogedig ar gyfer **pynciau prinder Uwchradd yn unig**. Bydd angen ysgol uwchradd yn barod i'ch ardystio, a gallwn eich helpu i ddod o hyd iddo.

Yn ôl i'r dewislen

## 7. Ymrwymiad i'r Cwrs

### *Faint o amser fydd angen i mi dreulio yn astudio?*

Mae pob modiwl TAR yn cynnwys astudio academaidd drwy seminarau ar-lein dan arweiniad eich tiwtor cwricwlwm; cyfnod o brofiad ysgol; a chyflwyno portffolio o dystiolaeth sy'n cynnwys ymatebion i dasgau academaidd ac adroddiadau o'ch profiad ysgol. Ym mhob modiwl, byddwch yn cael eich asesu drwy ystod o dasgau, gan gynnwys traethodau ysgrifenedig.

Os ydych chi ar y **llwybr cyflogedig**, byddwn yn gweithio gyda'ch ysgol i greu amserlen gyfunol o weithgareddau. Mae hyn yn cynnwys eich gwaith arferol, amser astudio a warchodir a chyfnodau ymarfer dysgu TAR dynodedig. Os ydych chi ar y **llwybr rhan amser**, byddwch yn astudio 2–3 diwrnod yr wythnos, naill ai mewn sesiynau astudio academaidd neu ar eich profiad dysgu.

### *Faint o amser fydd angen i mi dreulio yn addysgu?*

Yn y flwyddyn gyntaf, bydd disgwyl ichi dreulio tua 50% o'ch amser mewn rôl cymorth a 50% o'ch amser yn astudio neu'n ymgymryd â gweithgareddau ymarferol fel cynllunio a chyflwynogwersi. Byddwch yn symud o gynnig cymorth yn y dosbarth, a chynllunio ac addysgu gwersi unigol yn TAR 1; i gynllunio ac addysgu cyfres o wersi yn TAR 2; i gymryd cyfrifoldeb am gynllunio, darparu adnoddau ac addysgu ar eich pen eich hun cyfres o wersi yn TAR 3. Yn yr ail flwyddyn, yn amodol ar ddilyniant llwyddiannus drwy'r cwrs, gallwch fod yn addysgu amhyd at 70% o'r wythnos ysgol.

Bydd yr amser addysgu gwirioneddol yn amrywio wrth i chi fynd drwy'r cwrs, a chewch gefnogaeth yn eich datblygiad i sicrhau eich bod yn barod am fwy o amserlen wrth I chi symud i flwyddyn 2. Ar TAR 3, mae'n rhaid i chi ymrwymo i 30 diwrnod llawn o addysgu (pum diwrnod yr wythnos dros gyfnod o chwe wythnos ysgol yn olynol).

Penderfynir ar amserlenni myfyrwyr ar ddechrau'r lleoliad drwy drafodaeth rhwng yr ysgolgyflogwr, y tiwtor cwricwlwm a'r myfyriwr a bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

### *Faint o amser fydd gen i ar gyfer fy swydd arferol?*

Ar y **llwybr cyflogedig,** bydd eich amser astudio ar-lein a'ch elfen ymarfer dysgu yn cael eu hymgorffori mewn amserlen y cytunwyd arni.

a. Yn ystod y modiwl cyntaf (TAR 1, Blwyddyn 1), byddwch yn cwblhau 2.5 diwrnod yr wythnos yn eich rôl bresennol; 1.5 diwrnod yr wythnos ar gyfer cyfnodau ymarfer dysgu pwrpasol ac 1 diwrnod yr wythnos ar gyfer astudio modiwl ar-lein.
   Mae'r ffocws yn ystod y cyfnod ymarfer dysgu ar arsylwi yn y camau cychwynnol, hyd at weithgareddau addysgu tîm neu rannau bach o weithgareddau addysgu dan oruchwyliaeth, gan adeiladu at wersi cyfan tuag at ddiwedd y modiwl. Ni ddylid gadael athrawon dan hyfforddiant i addysgu'n annibynnol yn ystod TAR 1.
b. Yn yr ail fodiwl (TAR 2, Blwyddyn 1), 2.5 diwrnod yr wythnos yn eich rôl bresennol (ond gellir lleihau hyn i 2 ddiwrnod i gynyddu'r cyfnod ymarfer dysgu); 2 ddiwrnod

yr wythnos ar gyfer ymarfer dysgu (gellir ei gynyddu i 2.5 diwrnod) a 0.5 diwrnod yr wythnos ar gyfer astudio modiwl ar-lein.
Rhwng mis Mawrth a mis Mai mae'r ffocws ar ymgymryd â chyfnodau mwy estynedig o addysgu yn arwain tuag at ymarfer annibynnol. Rhwng y Pasg a diwedd mis Mai gall y myfyriwr-athro ymgymryd â chyfnodau estynedig o addysgu, gan gynnwys dechrau dysgu dim mwy na 2 ddiwrnod yn annibynnol. Dylid arsylwi gwersi yn aml.
Yn yr ail fodiwl bydd angen i chi hefyd gwblhau ail leoliad ysgol yn ystod Mehefin a Gorffennaf, lle byddwch chi mewn ysgol arall am 3 neu 4 diwrnod yr wythnos am 6 wythnos, Yn ystod yr amser hwn, ni ddylai myfyriwr-athro ddysgu mwy na 60 % o'u hamserlen yn eu hail ysgol.

c. Yn y trydydd modiwl (TAR 3, Blwyddyn 2), dylai fod gennych amserlen addysgu sy'n cyfateb i ddim mwy na 3.5 diwrnod yr wythnos a 0.5 diwrnod ar gyfer astudio modiwl ar-lein. Yr amser sy'n weddill, defnyddiwyd ar gyfer paratoi gwesi.

Ar y **llwybr rhan-amser**, byddwch chi'n astudio 2–3 diwrnod yr wythnos, naill ai mewn astudiaeth academaidd neu ar eich profiad ysgol. Byddai angen i chi ffitio hyn o amgylch eich chyfrifoldebau eraill yn unol â'ch ysgol leoliad. Mantais y llwybr rhan amser yw'r hyblygrwydd y mae hyn yn ei roi i'r rheini sydd eisoes mewn cyflogaeth ran-amser (neu sydd â chyfrifoldebau eraill fel magu plant neu ofalu). Fodd bynnag, ni argymhellir i fyfyrwyr weithio'n llawn amser wrth astudio'r rhaglen hon. Byddwch yn cwblhau tri chyfnod ymarfer dysgu ar wahân tuag at ddiwedd astudio'r unedau ar-lein. Bydd y tri chyfnod o ymarfer dysgu yn eich galluogi i lunio astudiaeth ddamcaniaethol gyda phrofiad ymarferol a bydd yn cynnwys cyfanswm o 120 diwrnod dros y 2 flynedd (60 diwrnod dysgu ymarfer y flwyddyn).

a. Ym Mlwyddyn 1, Modiwl 1, bydd angen i chi gwblhau 25 diwrnod o ymarfer dysgu rhwng Tachwedd ac Ionawr
b. Ym Mlwyddyn 1, Modiwl 2, byddwch yn cwblhau 35 diwrnod o ymarfer dysgu rhwng Ebrill a Gorffennaf mewn ysgol wahanol.
c. Ym Mlwyddyn 2, Modiwl 3, byddwch yn cwblhau 60 diwrnod o ymarfer dysgu rhwng mis Hydref a chanol mis Mai. Rhaid cwblhau 30 diwrnod parhaus h.y. 5 diwrnod yr wythnos am 6 wythnos.

## 8. Lleoliadau Ysgol

### *Sut mae lleoliadau ysgol yn gweithio?*

Bydd myfyrwyr cyflogedig yn ymgymryd â phrofiad ymarferol wrth astudio.

Bydd myfyrwyr rhan amser yn ymgymryd â'u profiad ymarferol yn eu hysgolion lleoliad tuag at diwedd eu hastudiaeth academaidd ym mhob modiwl.

Disgwylir i bob myfyriwr gael lleoliadau mewn dwy ysgol wahanol er mwyn ennill SAC.

Byddwch yn gweithio gyda'ch mentor, ac aelodau staff yr ysgol i ymgymryd â mwy o gyfrifoldebau addysgu. Byddwch yn symud o gynnig cymorth yn y dosbarth, a chynllunio ac addysgu gwersi unigol yn TAR 1; i gynllunio ac addysgu cyfres o wersi yn TAR 2; i gymryd cyfrifoldeb am gynllunio, darparu adnoddau ac addysgu ar eich pen eich hun cyfres o wersi

Yn ôl i'r dewislen

yn TAR 3. P'un a ydych ar y llwybr cyflogedig neu'r llwybr rhan amser, byddwch yn ymgymryd â phrosiect ymchwil yn y dosbarth unigol yn TAR 3.

I fyfyrwyr ar y llwybr rhan-amser, bydd gennych 120 diwrnod o leoliadau ysgol; 60 diwrnod y flwyddyn. Fodd bynnag, dylai myfyrwyr nodi bod rhaid cael bloc o 30 diwrnod o brofiad ysgol parhaus ym mlwyddyn 2 y Llwybr Rhan Amser. Mae'n rhaid i fyfyrwyr ymrwymo i 30 diwrnodllawn o addysgu (pum diwrnod yr wythnos dros gyfnod o chwe wythnos ysgol yn olynol).

Bydd mentoriaid yn eich cefnogi drwy gydol y profiad ysgol. Byddant yn cyflwyno ac yn hwyluso tasgau rheolaidd yn yr ysgol, a fydd yn bwydo i mewn i'ch astudiaethau.

## *Pryd mae'r lleoliadau ysgol yn cael eu cynnal?*

Bydd myfyrwyr cyflogedig yn ymgymryd â phrofiad ymarferol wrth astudio. Ar y llwybr cyflogedig byddech yn gweithio'n llawn amser o fis Medi ymlaen. Disgwylir i bob myfyriwr gael lleoliadau mewn dwy ysgol. Ar y Llwybr Cyflogedig, bydd y rhan fwyaf o'ch amser yn caelei dreulio yn eich ysgol gyflogwr, ond ym mis Mehefin a mis Gorffennaf y flwyddyn gyntaf, bydd disgwyl i chi ymgymryd ag ail leoliad mewn ysgol bartner arweiniol.

Bydd myfyrwyr rhan amser yn ymgymryd â'u profiad ymarferol yn ein Hysgolion Partner tuag at diwedd eu hastudiaeth academaidd ym mhob modiwl. Yn ystod 2 flynedd y cwrs, byddwch yn treulio 120 diwrnod ar leoliad. Mae hyn yn cyfateb i 60 diwrnod y flwyddyn o amser ar leoliad (30 diwrnod ar draws hanner cyntaf y flwyddyn, 30 yn yr ail hanner) a bydd yn cynnwys un cyfnod yn ystod eich ail flwyddyn o 30 diwrnod y mae'n rhaid ei weithio mewn bloc parhaol o 6 wythnos.

## *A oes modd imi wneud fy lleoliadau yn fy ysgol bresennol?*

Oes. Os ydych yn cael eich cyflogi gan ysgol ond nid ydynt yn gallu cynnig nawdd i chi ar gyfer y llwybr cyflogedig, efallai y bydd modd i chi ddewis y llwybr rhan amser yn eich ysgol bresennol. Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid i'ch ysgol wneud cais i ddod yn un o'n HysgolionPartner Cysylltiol gyda'r ddealltwriaeth bod yn rhaid i chi gwblhau ail leoliad mewn ysgol wahanol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma

Mae'n rhaid i fyfyrwyr ymrwymo i 30 diwrnod llawn o addysgu (pum diwrnod yr wythnos drosgyfnod o chwe wythnos ysgol yn olynol) yn ystod blwyddyn 2. Byddai angen cytuno ar hyn yn uniongyrchol gyda'ch ysgol bresennol. Bydd yr ail ysgol yn un o'n hysgolion partner, sy'n gorfod bodloni meini prawf manwl er mwyn dod yn rhan o bartneriaeth. Byddant yn cael eu dewis gan y bartneriaeth a bydd y penderfyniad hwnnw'n seiliedig ar a ydynt yn ategu'r lleoliad gwreiddiol, lleoliad daearyddol yn ogystal â ffactorau eraill.

## *Beth yw Ysgol Bartner?*

Mae ysgol bartner yn un sydd wedi gwneud cais i ymuno â'r rhaglen ac wedi bodloni'r meiniprawf manwl i ddod yn rhan o'r bartneriaeth.

Yn ôl i'r dewislen

Ceir 3 math o Bartner:

Prif Ysgol Bartner – aelodau o'r Pwyllgor Partneriaeth sydd â chyfrifoldebau strategol a gwneud penderfyniadau allweddol, yn arwain ysgolion cyflogi a chysylltiol o fewn eu clwstwr ac yn chwarae rhan ganolog ym mhob agwedd o'r rhaglen.

Ysgol Bartner Gysylltiol - cefnogi datblygiad myfyrwyr ar y rhaglen TAR Rhan Amser, gan ddarparu cyfleoedd lleoliad o hyd at 120 diwrnod y flwyddyn.

Ysgol Bartner Gyflogwr - y rhai sy'n dymuno cefnogi datblygiad myfyriwr cyflogedig sydd wedicofrestru ar y llwybr TAR Cyflogedig.

Gall ysgolion fod â mwy nag un statws e.e. gall Ysgol Gyflogwyr hefyd fod yn Ysgol Gysylltiolos ydynt yn noddi eu cyflogai eu hunain ar y Llwybr Cyflogedig ac yn cynnig lleoliadau i fyfyrwyr ar y Llwybr Rhan Amser. A ragor o wybodaeth - gweler tudalennau ein Hysgolion

## 9. Eisoes yn gweithio mewn ysgol?

### *Mae fy ysgol bresennol wedi cytuno i fy noddi, sut mae hynny'n gweithio?*

Os ydych eisoes yn gweithio mewn ysgol wladol, fel cymhorthydd addysgu neu mewn swyddnad yw'n ymwneud ag addysgu, gallwch wneud cais i'ch ysgol eich noddi i wneud y TAR. Byddwch yn gweithio yn llawn amser ac yn astudio o amgylch eich dyletswyddau presennol. Byddwch ar y Llwybr Cyflogedig ac yn cael eich cyflogi gan eich ysgol, a gan amlaf, yn derbyny swm cyflog lleiafswm ar y raddfa athro heb gymhwyso (£18,487 ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/2022). Gweler ein prosbectws a'n gwefan ar gyfer rhagor o wybodaeth.

Gofynnwch i'ch pennaeth wneud cais i ddod yn Ysgol Bartner Gyflogwr gyda'n rhaglen. Cliciwch yma am ragor o fanylion.

### *Nid yw fy ysgol bresennol yn gallu fy noddi, a allwch chi fy helpu i ddod o hyd i ysgol arall i fy noddi?*

Ar gyfer **pynciau prinder uwchradd yn unig**, gallwch wneud cais i'r llwybr cyflogedig heb ysgol ardystio a gallwn o bosib eich paru ag ysgol uwchradd sy'n chwilio am fyfyriwr cyflogedig. Yna bydd yr ysgol uwchradd yn cyfweld ymgeiswyr rydym wedi'u cyflwyno gan ddefnyddio eu gweithdrefnau cyflogaeth eu hunain ac yn penderfynu a ddylid cynnig contract cyflogaeth i'r myfyriwr (ni allwn warantu cyflogaeth i chi). Byddai disgwyl i'r gyflogaeth ddechrau ym mis Medi.

Dyma pam ein bod yn dweud efallai y byddwn yn gallu eich helpu i'ch paru â'r ysgol noddi. Ni allwn warantu eich cyflogaeth. Os nad yw'n bosibl eich paru ag ysgol gyflogwr, byddem yn eich cefnogi ar yLlwybr Rhan Amser ac yn ceisio eich paru ag ysgol leoli addas.

Yn ôl i'r dewislen

### *Nid yw fy ysgol bresennol yn gallu fy noddi, a oes modd imi ddilyn y llwybr rhan amser?*

Os nad yw eich ysgol bresennol yn gallu eich noddi a'ch bod am barhau i gael eich cyflogi ynyr ysgol honno, yn hytrach na dod o hyd i ysgol arall i'ch noddi, gallech wneud cais am y Llwybr Rhan Amser.

Mae'r llwybr hwn yn cynnig peth hyblygrwydd gan y gallwch ennill profiad addysgu ymarferolrhan-amser mewn ysgol law yn llaw â'ch ymrwymiadau presennol. Dros y ddwy flynedd, byddgennych 120 diwrnod o leoliadau dysgu; 60 diwrnod y flwyddyn. Yn yr ail flwyddyn, rhaid cwblhau 30 diwrnod o'ch lleoliadau ysgol mewn bloc parhaus. Os yw eich ysgol wedi cael ei derbyn fel un o'n Hysgolion Partner Cysylltiol, byddwch yn gallu gwneud y rhan fwyaf o'chlleoliadau ysgol yn eich ysgol. Byddwch yn astudio 2–3 diwrnod yr wythnos, naill ai mewnsesiynau astudio academaidd neu ar eich profiad dysgu. Byddai angen i chi drefnu hyn o gwmpas eich gwaith cyflogedig mewn cytundeb gyda'ch ysgolion lleoli.

### *Sut mae fy ysgol yn gwneud cais i ddod yn ysgol Bartner?*

Gweler ein gwefan i Ysgolion ar gyfer gwybodaeth ynghylch sut gall eich ysgol wneud cais iddod yn ysgol barner. Gofynnwch i'ch Pennaeth anfon llythyr cymeradwyo atom gan ddefnyddio'r templed a ddarperir ar ein gwefan.

Yn ôl i'r dewislen